Ymgynghoriad ar Bolisi y CPS ar gyfer erlyn achosion o Dreisio

Crynodeb o ymatebion

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y CPS yn www.cps.gov.uk

Cynnwys

Rhagarweiniad 2

Cefndir 3

Crynodeb o'r Ymatebion 3

Ymatebion i Gwestiynau Penodol 5

Casgliad 11

Meini prawf yr ymgynghoriad 12

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr 13

Rhagarweiniad

Dyma grynodeb o'r ymatebion i: 'Ymgynghoriad ar Bolisi y CPS ar gyfer Erlyn Achosion o Dreisio'. Mae'n disgrifio:

- cefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad; ac
- ein casgliadau.

Mae rhagor o gopïau o'r crynodeb hwn i'w cael trwy gysylltu â:

Tîm yr Ymgynghoriad ar Dreisio
Y Gyfarwyddiaeth Polisi
Gwasanaeth Erlyn y Goron
50 Ludgate Hill
Llundain
EC4 M7EX

Maent i'w cael hefyd trwy e-bost o:
hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

Gellir cael copïau hefyd ar wefan y CPS:
http://www.cps.gov.uk/publications/docs/prosecuting_rape.pdf

Cefndir

Ym mis Awst 2008, fe lansiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ymgynghoriad cyhoeddus ar adnewyddu ei Ddatganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion o dreisio. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio sicrhau amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn hysbysu polisïau ac arferion y CPS mewn perthynas ag erlyn achosion o dreisio.

Mae'r CPS yn gyfrifol am adolygu achosion o dreisio a chymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron er mwyn penderfynu a ddylid erlyn ai peidio. I gynorthwyo erlynwyr i wneud y penderfyniad hwnnw, byddwn yn adolygu ein polisïau a'n harferion trwy ymgynghori'n gyhoeddus a mewnol. Mae'r Datganiad Polisi Cyhoeddus yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn y mae'r CPS yn ei wneud, sut y bydd achosion o dreisio yn cael eu herlyn, a'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CPS. Cafodd y datganiad polisi ei anelu'n benodol at y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr treisio, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, er y gall fod o ddiddordeb i ddioddefwyr a thystion a'r cyhoedd.

Treisio yw un o'r troseddau mwyaf difrifol. Mae'n gallu peri trawma parhaol i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Mae'r CPS yn benderfynol o erlyn achosion o dreisio yn effeithiol.

Bydd y ddogfen a fu'n destun ymgynghoriad yn dod yn 2il rifyn y Datganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion o dreisio. Mae'r datganiad polisi ar ei newydd wedd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o ymatebion.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i ymatebwyr ateb chwe chwestiwn penodol a rhoi unrhyw sylwadau neu farn ychwanegol ar ddiwedd eu hymateb. Daeth cyfnod yr ymgynghoriad i ben ar 29 Hydref 2008, er i nifer fach o ymatebion ddod i law ar ôl y dyddiad hwn. Cafodd yr holl ymatebion a dderbyniwyd cyn 20 Tachwedd 2008 eu cynnwys yn y crynodeb o ymatebion. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'w chael yn Atodiad A

Crynodeb o'r Ymatebion

Daeth cyfanswm o 34 ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus i law. Rhannwyd yr ymatebwyr hyn yn dri chategori, sef:

- ymatebion gan unigolion;
- ymatebion gan sefydliadau; ac
- ymatebion gan asiantaethau cyfiawnder troseddol

Mae manylion y tri chategori o ymatebwyr i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Tabl o'r math o ymatebydd

Crynodeb o Ymatebwyr		
Categori Ymatebwyr	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Unigolion	4	12
Sefydliadau	13	38
Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol	17	50
Cyfanswm	**34**	**100%**

Nid yw pob ymatebydd wedi rhoi atebion penodol i bob cwestiwn unigol yn y ddogfen ymgynghori. Mae Tabl 2 isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ac mae'r ganran yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ymatebwyr, heb ystyried y math.

Tabl 2: Tabl o ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o gyfanswm nifer yr ymatebwyr

Ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o'r holl ymatebwyr		
Cwestiwn	**Nifer yr ymatebion a gafwyd**	**Canran cyfanswm yr ymatebwyr**
1	30	88%
2	31	91%
3	30	88%
4	31	91%
5	27	79%
6	29	85%

Cafodd pob ymateb unigol ei adolygu gan Gyfarwyddiaeth Polisi y CPS. Nid yw pob ymatebydd wedi cadw at y cwestiynau penodol a geir yn y ddogfen ymgynghori ond mae barn yr ymatebwyr yn cael ei hadlewyrchu yn y tablau uchod a'r dadansoddiad manwl o ymatebion sy'n dilyn.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 1: A oes unrhyw ran o'r Datganiad Polisi ar Dreisio rydych yn anghytuno'n gryf â hi? Os oes, nodwch ba baragraff a rhowch esboniad byr i ddweud pam eich bod yn anghytuno.

Cafwyd 30 ymateb i'r cwestiwn hwn ac o'u plith roedd 12 ymateb yn gadarnhaol a heb nodi unrhyw anghytundeb cryf â'r datganiad polisi. Roedd gweddill yr ymatebion yn cynnig amryw o awgrymiadau i wella'r datganiad polisi.

Dywedodd un ymatebydd, er bod y CPS wedi ymuno'n genedlaethol â'r Protocol ar Dreisio gydag ACPO, nad oedd hynny'n golygu unrhyw beth hyd nes iddo gael ei lofnodi'n lleol. Teimlid hefyd bod crybwyll hyn yn y Datganiad Polisi ar Dreisio yn gamarweiniol.

Teimlai ymatebydd arall, er bod y datganiad polisi yn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith, fod rhai mân wallau ac ailadrodd diangen.

Anghytunai un ymatebydd â'r opsiwn i orfodi dioddefwr (achwynwyr cyndyn) i roi tystiolaeth yn y llys. Y farn yw y dylai'r CPS (a'r heddlu) wneud popeth o fewn eu gallu i berswadio dioddefwr i fynychu'r llys a chynnig yr holl fesurau arbennig angenrheidiol. Credai ymatebydd arall fod yr adran hon yn awgrymu adegau pan fydd y CPS yn gorfodi dioddefwr i roi tystiolaeth a chredai ei bod yn eithriadol i achwynydd gael ei orfodi i roi tystiolaeth.

Teimlai dau ymatebydd y dylai'r paragraff ynghylch cwrdd â dioddefwyr fod yn gliriach.

Nododd un ymatebydd y dylai achosion sy'n ymwneud â threisio mewn perthnasau o'r un rhyw gyfeirio mewn gwirionedd at yr holl bobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LGB) a gafodd eu treisio. A dywedodd ymatebydd arall nad oedd yna gyfeiriad at faterion diwylliannol a materion sensitif sy'n effeithio ar aelodau o leiafrif ethnig wrth benderfynu rhoi gwybod am dreisio ai peidio.

Teimlid hefyd y dylai'r datganiad polisi ystyried yr effaith sylweddol y gall ymosod rhywiol a threisio ei chael ar blant, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Codwyd pryderon hefyd am ddiffyg cyfeirio at gyhuddiadau anwir.

Argymhellwyd y dylid cydnabod rhwystrau pellach sy'n atal menywod rhag rhoi gwybod am dreisio.

Teimlai un ymatebydd y dylai'r cynnwys gael ei aildrefnu mewn ffordd fwy rhesymegol a disgrifiodd sut dylid gwneud hynny.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd y datganiad polisi yn cydnabod y gweithredu sylweddol yr oedd y CPS wedi'i gyflawni i gwrdd â'i rwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Teimlid bod hyn yn bwysig oherwydd y gall dawelu meddwl rhai grwpiau am ymrwymiad y CPS i gydraddoldeb.

Yn olaf, dywedodd ymatebydd arall ei fod yn ansicr ynghylch y cyfeiriad at y Gwasanaeth Cefnogi Tystion. Dylai un ai fod yn 'Gymorth i Ddioddefwyr' neu'n 'Wasanaeth Tystion'. Hefyd, ble mae'n dweud y bydd y CPS yn hysbysu'r Uned Gofal Tystion (WCU), bydd y WCU yn derbyn y wybodaeth hon yn awtomatig gan y llys dan y Côd i Ddioddefwyr ac mae ganddi rwymedigaethau statudol dan y Côd mewn perthynas â chyswllt â dioddefwyr. O safbwynt Datganiadau Personol Dioddefwr, teimlid bod y drafft presennol yn awgrymu bod y datganiadau hyn yn dylanwadu ar y dedfrydu, ond nid yw hyn yn wir. Yr oedd yn bwysig egluro hefyd y bydd Datganiad Personol Dioddefwr yn cael ei ddadlennu i'r amddiffyniad.

Teimlid y dylai swyddogaeth yr Unedau Gofal Tystion gael ei rhoi o flaen y Gwasanaeth Tystion, Cymorth i Ddioddefwyr a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) oherwydd eu bod hwy'n ymwneud â'r mater o'r gwrandawiad cyntaf. Yn olaf, ble'r oedd y term 'tyst hŷn' yn cael ei ddefnyddio, dylid ei newid i 'ddioddefwyr treisio'.

Cwestiwn 2: A ydych yn meddwl bod y gyfraith wedi cael ei hesbonio'n addas? Os nad ydych, nodwch ba baragraffau sydd angen eu hegluro ymhellach.

Cafwyd 31 ymateb i'r cwestiwn hwn. Teimlai nifer o ymatebwyr fod y gyfraith wedi'i hegluro'n dda heb fod yn rhy gymhleth a'i bod yn hawdd ei dilyn. Teimlai eraill fod angen rhagor o fanylder.

Teimlai un ymatebydd y dylid egluro'r term "treisio" yn gliriach. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol mynd ati'n fyr i egluro'r rheolau sy'n llywodraethu derbynioldeb tystiolaeth mewn achosion troseddol gan y byddai hynny'n cynorthwyo i reoli disgwyliadau dioddefwyr, fel y byddai ganddynt syniad beth i'w ddisgwyl.

Teimlai dau ymatebydd fod adran 2: *Beth yw diffiniad Treisio* yn galw am eglurhad pellach, ac y bydd trosedd ymosod trwy dreiddio yn cael ei drin yn yr un ffordd â threisio gyda phidyn.

Awgrymodd tri ymatebydd y byddai geirfa o gymorth i egluro termau fel bargyfreithiwr/erlynydd a cyhuddo/remandio/dedfryd ac y byddai'n ddefnyddiol ar gyfer dioddefwyr/tystion ac unrhyw bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

Mae angen i'r adran ar droseddau a newidiadau i'r gyfraith fod yn gliriach ac mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch dedfrydu.

Nid oedd yn glir i ymatebydd arall pwy sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r dioddefwr am newidiadau i amodau mechnïaeth neu statws cadw yn y ddalfa ac y dylid egluro hyn yn y datganiad polisi.

Nododd un ymatebydd bod y rhan sy'n dweud 'profi diffyg cydsyniad yw rhan anoddaf erlyniad treisio fel arfer a dyma'r mater sy'n peri i'r rhan fwyaf o achosion fethu' yn gamarweiniol. Nid yw'n fwriad cyfleu'r neges bod y rhan fwyaf o erlyniadau treisio yn methu, yn hytrach yr hyn a fwriedir yw nodi: o blith y rhai sy'n methu, y rheswm mwyaf cyffredin yw anhawster profi cydsyniad.

Credai ymatebydd arall y dylid cael eglurhad cliriach a gwahaniaethu rhwng adran 75 ar ragdybiaethau amodol ac adran 76 ar ragdybiaethau pendant.

Teimlai un ymatebydd y dylai'r adran ar y gyfraith (adran 2) gael ei gwneud yn gliriach ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Teimlai ymatebwyr eraill y dylai fod cyfeiriad at achos Bree o ran cydsyniad meddw. Tra bo ymatebydd arall yn dweud y dylai gynnwys y ffaith nad oedd treisio yr anws yn cael ei gynnwys yn y diffiniad ar gyfer treisio cyn y newidiad i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Teimlid hefyd nad oedd y gyfraith yn cael ei hesbonio mewn perthynas â phlant a sut bydd y CPS yn mynd ati i gyhuddo yn yr achosion hyn, a bod angen hyn.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r ffordd rydym wedi mynd i'r afael â mythau a stereoteipiau?

Cafwyd 30 ymateb i'r cwestiwn hwn. At ei gilydd, y farn oedd fod angen rhagor o wybodaeth ynghylch y mater hwn.

Teimlai un ymatebydd y gellid cryfhau'r adran hon trwy ddelio'n benodol â'r 'diwylliant o anghrediniaeth'. Teimlai ymatebydd arall y dylid crybwyll mai un o'r mythau ynghylch treisio yw'r dybiaeth o wrywgydiaeth os bydd gwryw yn cael ei dreisio gan wryw arall.

Nododd ymatebwyr eraill, er y dywedir yn y datganiad polisi nad yw'r CPS yn caniatáu i fythau a stereoteipiau ddylanwadu ar eu penderfyniadau, nid yw'n glir beth yw'r prif fythau hyn. Teimlid y byddai'n ddefnyddiol ailadrodd y prif fythau a chyflwyno enghreifftiau. Gosodwyd y cwestiwn hwn gan ymatebydd: "sut ydych chi'n mesur nad yw mythau a stereoteipiau yn dylanwadu arnoch chi (y CPS)?"

Dywedodd un ymatebydd, er bod y geiriad yn delio'n gywir â'r myth bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn cael eu treisio gan ddieithryn, bod y geiriad yn awgrymu hefyd bod niferoedd tebyg o fenywod a dynion yn cael eu treisio. Awgryma newid y geiriad i adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn adnabod y sawl sy'n ymosod arnynt ac mai menywod yw mwyafrif y dioddefwyr.

Dylai'r adran hon egluro'r elfen o ryw yr unigolion sy'n perthyn i dreisio (*the gendered nature of rape*), a bod y CPS yn gweithio i fynd i'r afael â threisio o fewn fframwaith y strategaeth Trais yn erbyn Menywod.

Teimlid y dylai barnwyr ac aelodau rheithgorau dderbyn 'sesiynau ymwybyddiaeth' cyn gwrando'r achos.

Awgrymodd un ymatebydd fod angen rhagor o wybodaeth yn y datganiad polisi ynghylch y ffordd y mae'r CPS yn mynd i ymdrin â mythau a stereoteipiau.

Meddyliai un ymatebydd y dylai'r datganiad polisi gynnwys sut bydd y CPS yn gwneud penderfyniadau cadarn i erlyn achosion a rhoi prawf ar derfynau'r gyfraith bresennol a derbyn tystiolaeth arbenigol (os bydd angen) ar syndrom trawma treisio yn ogystal â herio'r farnwriaeth i ganiatáu tystiolaeth gan y rhai sy'n delio'n gyson â dioddefwyr er mwyn cynorthwyo rheithgorau i asesu adweithiau dioddefwyr.

Cwestiwn 4: A ydych yn meddwl bod y Datganiad Polisi ar Dreisio yn ymdrin yn addas â materion cefnogi dioddefwyr? Os nad ydych, rhestrwch y materion y mae angen ymdrin â nhw.

Cafwyd 31 ymateb i'r cwestiwn hwn. Y teimlad at ei gilydd oedd fod y datganiad polisi yn ymdrin â materion cefnogi dioddefwyr yn eithaf da.

Teimlai un ymatebydd, er bod y cynnwys yn gywir, fod yr adran yn rhy fyr. Awgrymwyd y dylai'r camau sydd ar gael i helpu tystion i roi tystiolaeth, gael eu nodi'n glir.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylid ychwanegu swyddogaeth y Swyddog â Hyfforddiant Arbennig (STO) gan fod yr STO yn gyswllt pwysig yn y gadwyn gyfathrebu rhwng yr heddlu a'r CPS.

Teimlai un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol ymgorffori'r hyn sy'n digwydd i ddioddefwr ar ôl mynychu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn ogystal â swyddogaeth y Gweithwyr Argyfwng sy'n gweithio gyda dioddefwyr treisio.

Teimlai un ymatebydd fod y polisi yn methu o ran 'gwerthu' rhai o'r mentrau i ddioddefwyr a thystion yn hytrach na chyfiawnhau eu bodolaeth. Er enghraifft awgrymir y gellid mynd ati yn well i egluro manteision canolfannau SARC i ddioddefwyr a'r hyn y byddai'n ei olygu iddynt wrth wynebu'r penderfyniad o roi gwybod i'r heddlu am honiad o dreisio. Hefyd, wrth drafod Unedau Gofal Tystion, byddai o gymorth disgrifio sut gellir cynorthwyo pobl â phroblemau gofal plant i ofalu am eu plant tra bônt yn mynychu'r llys.

Meddyliai nifer o ymatebwyr fod lle i wella mewn perthynas â chyfweliadau gyda thystion cyn y treial rhwng erlynwyr a dioddefwyr a theimlid y dylid rhoi rhagor o fanylion yn y datganiad polisi ynghylch pwrpas y cyfarfodydd hyn a phwy fydd yn bresennol.

Dylai'r adran ar ganolwyr fod yn gliriach o ran fod canolwyr yn cael eu defnyddio i gynorthwyo dioddefwyr ag anawsterau dysgu ac y gellir eu defnyddio ar unrhyw gam yn yr achos.

Teimlid hefyd y dylai'r CPS ddangos teimlad o gyfrifoldeb dros gefnogi'r dioddefwr trwy'r system cyfiawnder troseddol a thu hwnt trwy sicrhau cyfraniad neu amlygu asiantaethau eraill. Awgrymwyd y dylid ymgorffori rhestr o sefydliadau a manylion cyswllt perthnasol yn y datganiad polisi gan y byddai hynny'n ddefnyddiol i ddioddefwyr a thystion.

Cyfeiriwyd at SARC fel 'menter y llywodraeth' ac ystyrid nad yw'r cyfeiriad hwn yn briodol ar gyfer dogfen bolisi.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd sôn am y ffaith y gall y dioddefwr/tyst weld eu datganiad er mwyn eu hatgoffa eu hunain. Hefyd, ni cheir sôn am y ffaith fod yn rhaid i'r ddau erlynydd arbenigol fod yn gytûn wrth benderfynu a ddylid cyhuddo ai peidio mewn achos o dreisio. Mae hyn yn sicrwydd ychwanegol i'r dioddefwr a dylid crybwyll hyn.

Teimlai ymatebydd arall y dylai fod rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael. Dylid diffinio swyddogaeth a chylch gwaith cefnogwyr yn glir. Er enghraifft, ni fydd cefnogwyr yn cael mynd i ardal y tyst os byddant wedi eistedd yn yr oriel gyhoeddus yn ystod camau cynnar y gwrandawiad. Awgrymwyd hefyd y dylai dioddefwyr a thystion gael copi o '*From Report to Court*', sef cyhoeddiad cynhwysfawr sy'n egluro'r system gyfreithiol ar gyfer menywod sydd wedi cael profiad o dreisio a thrais rhywiol.

Cwestiwn 5: A oes unrhyw gefnogaeth bellach y gallwn ei chynnig i ddioddefwyr er mwyn iddynt roi eu tystiolaeth orau ac atal tynnu cyhuddiadau yn ôl?

Cafwyd 27 ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhoddodd llawer o ymatebwyr awgrymiadau o ran y gefnogaeth bellach y gall y CPS ei chynnig i ddioddefwyr er mwyn iddynt roi eu tystiolaeth orau ac osgoi tynnu cyhuddiadau yn ôl.

Teimlai un ymatebydd y gallai'r heddlu fod yn fwy sensitif wrth ymdrin â dioddefwyr treisio a'u datganiadau.

Meddyliai ymatebydd arall y dylid cyfeirio'n benodol yn y datganiad polisi at y math o sefyllfaoedd ble bydd y CPS yn ystyried apelio yn erbyn penderfyniad ble caniatawyd mechnïaeth ac y dylid dweud y dylai torri amodau mechnïaeth gael ei drin yn fwy cadarn.

Dywedodd un ymatebydd y dylid sefydlu mesurau arbennig ar unwaith ac y dylid eu 'gwarantu'.

Cyfeiriodd un ymatebydd at y ffaith y dylai fod cyfleusterau ar gael i gefnogi menywod sy'n methu troi at arian cyhoeddus ac y dylid cael cyfieithwyr sy'n fenywod.

Teimlai ymatebydd arall y dylai'r CPS ymrwymo i gydgysylltu â Llys y Goron i sicrhau bod achosion o dreisio yn cael blaenoriaeth ar y rhestr, nid yn unig mewn treialon ond mewn gwrandawiadau canolradd hefyd. Teimlid hefyd y dylai'r dioddefwr gael gwybod yn llawn beth sy'n digwydd drwy gydol yr achos.

Awgrymodd pum ymatebydd y dylid gweithio mwy fel tîm gyda rhagor o gydgysylltiadau rhwng asiantaethau, Swyddogion Gofal Tystion, y Gwasanaeth Tystion, a'r CPS. Nododd ymatebydd arall mai'r ffordd orau o leihau nifer yr achosion sy'n cael eu gollwng yw rhoi gwell gofal i ddioddefwyr, gwell cyfathrebu ac ymdrin â phryderon ynghylch ofn a dial.

Awgrymwyd gan un ymatebydd y dylid egluro yn y datganiad polisi nad yw trafodaethau ynghylch mesurau arbennig yn gyfyngedig i'r CPS ac y gellir eu cynnal gan yr heddlu neu ISVA wrth roi gofal i ddioddefwr. Hefyd, dylai fod rhagor o wybodaeth am fod yn ddienw oherwydd y

gall hyn effeithio ar eu parodrwydd i gefnogi achos.

Argymhellodd dau ymatebydd y dylai dioddefwyr gael gwybod am newidiadau ac amseriad digwyddiadau yn eu hachos. Bydd hyn o gymorth i reoli disgwyliadau ynghylch eu hachos, gan fod diffyg cyswllt a gwybodaeth yn aml yn arwain at dynnu cyhuddiadau yn ôl.

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Datganiad Polisi ar Dreisio?

Cafwyd 29 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Teimlai un ymatebydd y dylid cael eglurhad pellach ar fater cydsyniad.

Teimlai un arall y byddai'n well cael polisi ar gyfer erlyn trais rhywiol difrifol yn hytrach na pholisi penodol ar dreisio. Teimlid hefyd y gellid cryfhau'r datganiad polisi o safbwynt swyddogaeth y cydgysylltydd treisio a'u cyfrifoldebau. Teimlid hefyd y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu brawddeg: 'mae'r polisi yn amddiffyn pob dioddefwr o fewn yr awdurdodaeth, ni waeth beth fo'u statws mewnfudo presennol'. Teimlid hefyd y dylai'r CPS ystyried defnyddio terminoleg wahanol, fel 'goroeswr' neu 'achwynydd', yn hytrach na 'dioddefwr' ac y dylid cael paragraff eglurhaol ar ddechrau'r polisi i egluro'r termau a ddefnyddiwyd a chydnabod bod gwahanol farn yn bodoli yn y maes hwn.

Ystyrid bod llythyr at y dioddefwr pan fyddai'r achos yn cael ei ollwng neu gyhuddiadau'n cael eu newid, yn rhy gyfreithlyd a ffurfiol. Awgrymwyd yn y lle cyntaf y dylai'r CPS gysylltu dros y ffôn ac yna trwy lythyr ar ôl hynny. Roedd y datganiad polisi hefyd yn dweud y bydd yr heddlu yn danfon llythyr eglurhaol at y dioddefwr. Fodd bynnag, teimlid bod hyn yn dyblygu gwaith y swyddog.

Teimlai ymatebwyr eraill fod angen i'r datganiad polisi fod yn fwy manwl gydag esboniadau ac enghreifftiau. Tra bo eraill yn teimlo y dylai roi rhagor o fanylion ynghylch mater treisio o fewn priodas; y dylai menywod sy'n cael eu treisio o fewn priodas gael eu trin yn yr un ffordd â'r rhai a gafodd eu treisio gan ddieithriaid.

Teimlai un ymatebydd fod y datganiad polisi yn ymddangos yn rhagfarnllyd o blaid yr unigolyn sy'n rhoi gwybod am y trosedd, sy'n arwain at gefnogi honiadau anwir.

Teimlai ychydig o ymatebwyr y dylai achosion o dreisio ddilyn llwybr carlam trwy'r system cyfiawnder troseddol.

Dywedodd un ymatebydd y dylai'r datganiad polisi gynnwys cyfeiriadau clir ynghylch apelio yn erbyn y penderfyniad i gyhuddo ai peidio ac o ran dedfrydau rhy drugarog.

Dywedodd ymatebydd arall y dylai fod ymrwymiad parhaus tuag at ymgysylltu â'r gymuned o du'r CPS ar lefel genedlaethol a lleol.

Yn olaf, argymhellodd un ymatebydd y dylai'r datganiad polisi gael ei ailysgrifennu mewn Saesneg plaen.

Casgliad

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad a'r amser a fuddsoddwyd ganddynt yn gwneud hynny. Rydym yn sylweddoli y bydd hyn wedi bod yn arbennig o anodd i'r rhai hynny y mae treisio wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol neu i'r rhai sy'n gweithio i gefnogi dioddefwyr o'r fath. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a gawsom yn fanwl, ac wedi rhoi ystyriaeth iddynt wrth bwyso a mesur a ddylid diwygio'r datganiad polisi. Bydd yr ymatebion bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn o'r Datganiad Polisi Cyhoeddus ar ei newydd wedd.

Mae'r CPS yn ymrwymo i sicrhau bod ein polisi erlyn yn golygu y bydd ein herlynwyr yn gallu gwneud y penderfyniadau cyhuddo cywir a hynny nid yn unig yn unol â'r gyfraith gyfredol, ond hefyd, pan yw'n deg a chyfreithlon gwneud hynny, gan roi sylw i anghenion dioddefwyr a thystion. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y CPS bolisi y gall dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd fod â hyder ynddo.

Meini Prawf yr Ymgynghoriad

Dyma chwe maen prawf yr ymgynghoriad:

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2. Bod yn glir beth yw eich cynigion, ar bwy y gallai hyn effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn ac amserlen derbyn ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, cryno a digon hygyrch.

4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a gafwyd a sut mae proses yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y polisi.

5. Monitro effeithiolrwydd eich adran yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys trwy ddefnyddio cydgysylltydd ymgynghori un pwrpas.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion da rheoli gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yw'n briodol.

Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hatgynhyrchu o fewn pob dogfen ymgynghori.

Atodiad A

Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymatebwyr Unigol

Geoff Carr
Dr Louise Ellison
Katie Ewing

Sefydliadau

Cymorth i Fenywod BAWSO
Eaves – Prosiect Lilith
FASO – False Allegations Support Organisation
Rape Crisis
Rape and Sexual Abuse Support Centre
Rights of Women
Sefydliad Stonewall
Rhwydwaith y DU o Brosiectau Gwaith Rhyw
Unison
Canolfan Genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Cymorth i Fenywod
Women's Aid

Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol

Heddlu Dyfnaint a Chernyw
ISVA, Lerpwl
Uned Strategol Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru
Grŵp VAW Aml-asiantaeth Cymru
CPS Gorllewin Swydd Efrog
CPS Glannau Mersi
CPS Northumbria
CPS Llundain
CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr
CPS Essex
CPS Sussex
CPS Eastleigh
CPS Swydd Nottingham
CPS Suffolk
CPS Avon a Gwlad yr Haf

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.
Y mae ar gael ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk
Cynhyrchwyd gan y Gyfarwyddiaeth Polisi
Cyhoeddwyd Mawrth 2009

Cynlluniwyd gan Brookhill Design Studio Limited